Chwarae Teg Fairplay

**Summary Annual Report** 2001-02

# Ten years on and still going strong

Chief Executive's Review



2001 – 2002 marked the start of Chwarae Teg's tenth anniversary year, and gave us an excellent opportunity to reflect on and to celebrate the successes of women in Wales. We hosted numerous events throughout the country, raising awareness of equality issues amongst policy makers, young people, opinion formers, educators and many others.

2001 – 2002 also saw us take great strides forward with our business plan, achieving and indeed surpassing many of our targets. As well as successes, the past year has also brought new and exciting challenges and I wish to thank Chwarae Teg staff and board members for unfailingly rising to all these challenges.

**Significant achievements during the year included:**

**Research:** With funding from the Welsh Assembly Government we conducted research into the barriers facing women in the Welsh economy. This was a comparative report linked to a study undertaken by the WDA and EOC ten years ago. The research was very well received and instrumental in moving forward the debate on equal opportunities in Wales.

**Work-Life Balance:** Chwarae Teg was selected, by the Welsh Assembly Government, as the lead partner in this very important pan Wales initiative.

**Care:** Childcare remains a significant barrier to women participating fully in the economy. Chwarae Teg successfully helped establish Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, a new Welsh organisation supporting out of school childcare clubs. We also worked with partner organisations to give dependant care the prominence it rightly deserves.

**Women's Enterprise Wales:** As part of the WDA Entrepreneurship Action Plan we developed this project to assist women across Wales thinking of starting their own businesses.

**SME Equality Project:** Chwarae Teg continued to successfully administer the WDA project. The number of businesses we have worked with reached 800.

**Lone Parents Venture:** Again as part of the above plan and the Potentia project we started work with this group of under represented entrepreneurs.

**Marketing and communication:** British Gas supported our attendance at all four party political conferences in Wales for the second year running. Our Annual Conference attracted 250 delegates and was supported by ELWa and North Wales Police. UNIFI continued to design and print the bi-annual Balance newsletter that is circulated to interested parties including members and staff.



[Colleagues at work ]

**Our tenth anniversary research** shows that there are still many challenges and barriers facing women in Wales. Working together with partners Chwarae Teg will continue to play a key role in driving forward the role of women in the workplace over the coming decade. Looking forward to 2002 and beyond we will undertake our core work and intend to develop projects in the following areas:

**Employment practices**: we will develop the Work Life Balance initiative and continue to promote good employment practices.

**Promoting women's enterprise:** Chwarae Teg will continue to support women or lone parents wanting to start their own businesses across Wales. We will pilot a micro-credit programme.

**Education and training:** challenging stereotyping will remain core to our work. We will consider the indications from our research in relation to the lifelong learning agenda in Wales.

**Informing public policy**: our links with Europe, Westminster and the National Assembly for Wales will be further developed and we will build our expertise in relation to women's economic development in Wales.

## Board Members


**Neil Wooding (Chair)**
Bro Taf Health Authority

**Elan Closs Stephens (Deputy Chair)** S4C

**Gwenda Williams**
increative

**Hilary Davies**
Business in the Community

**Sheelagh Keyse**
Job Centre Plus

**Cllr. Ann Owens**
Welsh Local Government Association

**Betty Phillips**
Wales TUC

**Jacky Tonge**
Welsh Local Government Association

**Susan Geary**
HSBC

**Observers/Advisers**

**Sharon Linnard** - KPMG
**Kate Bennett** - EOC
**Iain Willox** - WDA




# accounts

**Statement of Financial Activities**
for the year ended 31 March 2002

| | 2002 |
|---|---|
| **Incoming Resources** | **£** |
| Donations, membership, grants etc | 255,709 |
| Activities in furtherance of objectives | 2,270,512 |
| Investment income | 7,150 |
| Other income resources | 30,582 |
| **Total incoming resources** | **2,563,953** |
| **Resources expended** | |
| Costs of generating funds | 40,695 |
| Activities in furtherance of objectives | 1,944,754 |
| Support costs | 31,826 |
| Management and administration | 306,889 |
| **Total resources expended** | **2,324,164** |
| Net incoming resources | **239,789** |
| Fund balances brought forward | **207,795** |
| Fund balances carried forward | **447,584** |

**Note:**
This summary financial statement is extracted from the full accounts and does not contain sufficient information to allow for a full understanding of the results and state of affairs of Chwarae Teg. For further information the full accounts for the year ended 31 March 2002, the auditors' report on those accounts, and the Trustees' annual report, should be consulted. The full accounts, prepared in accordance with Companies Act and Charity Accounting requirements, can be obtained free of charge by writing to the Finance and Resources Manager, at Chwarae Teg's National Office.

**Summary Balance Sheet**
for the year ended 31 March 2002

| | | 2002 |
|---|---|---|
| **Fixed assets** | **£** | **£** |
| Tangible assets | | 22,634 |
| **Current assets** | | |
| Debtors | 136,103 | |
| Short term deposits | 90 | |
| Cash at bank & in hand | 544,791 | |
| | **680,984** | |
| **Creditors:** falling due within 1 year | **256,034** | |
| **Net current assets** | | **424,950** |
| **Total assets less current liabilities** | | **447,584** |
| **Creditors:** falling due after 1 year | | |
| **Net Assets** | | **447,584** |
| **Funds** | | |
| Unrestricted | | 444,651 |
| Restricted | | 2,933 |
| **Total funds** | | **447,584** |


**Registered office:**
Blenheim House, Fitzalan Court,
Newport Road, Cardiff, CF24 0TS
Registered Charity No. 1084466
Company No. 2901456
Registered as Fairplay (Workforce) Ltd

**National office: Chwarae Teg,**
Anchor Court, Keen Road,
Cardiff, CF24 5JW
Tel:029 2047 8900
Fax:029 2047 8901
www.chwaraeteg.com
Email: post@chwaraeteg.com

# Dal yn gry' ar ôl deng mlynedd da

Adolygiad y Prif Weithredydd



Roedd 2001 – 2002 yn dynodi dechrau deng mlwyddiant Chwarae Teg a rhoddodd i ni gyfle ardderchog i fyfyrio ar lwyddiannau menywod yng Nghymru a'u dathlu. Bu i ni gynnal nifer o ddigwyddiadau ledled y wlad, gan gynyddu ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb ymysg llunwyr polisïau, pobl ifanc, ffurfwyr safbwyntiau, addysgwyr a llawer o bobl eraill.

Yn 2001 – 2002 hefyd, bu i ni gymryd camau breision iawn gyda'n cynllun busnes, gan gyrraedd ac, yn wir, ragori ar lawer o'n targedau. Yn ogystal â llwyddiannau, daeth y flwyddyn ddiwethaf hefyd â sialensiau newydd a chyffrous gyda hi a hoffwn ddiolch i staff ac aelodau bwrdd Chwarae Teg am wynebu'r sialensiau hyn yn ddi-feth.

**Dyma rai o'r cyflawniadau pwysicaf yn ystod y flwyddyn:**

**Gwaith Ymchwil:** Gydag arian gan Lywodraeth Cynulliad Cymru bu i ni gynnal gwaith ymchwil i'r rhwystrau y mae menywod yn eu hwynebu yn yr economi Gymreig. Roedd hon yn astudiaeth gymharol a oedd yn gysylltiedig ag astudiaeth a wnaed gan y Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) ac Comisiwn Cyfleon Cyfartal (EOC) ddeng mlynedd yn ôl. Cafodd y gwaith ymchwil groeso brwd a bu'n gyfrwng i fwrw ymlaen y ddadl am gyfle cyfartal yng Nghymru.

**Cydbwyso Bywyd a Gwaith:** Dewiswyd Chwarae Teg, gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, fel y prif bartner yn y cynllun Cymru-gyfan pwysig iawn hwn.

**Gofal:** Mae gofal plant yn dal yn ffactor amlwg sy'n rhwystro menywod rhag cyfranogi'n llawn yn yr economi. Llwyddodd Chwarae Teg i helpu sefydlu Clybiau Plant Cymru, sef sefydliad newydd yng Nghymru sy'n cefnogi clybiau gofal plant y tu allan i oriau ysgol. Buom hefyd yn gweithio gyda'n sefydliadau partner i roi'r amlygrwydd haeddiannol i ofal dibynyddion.

**Menter Merched Cymru:** Fel rhan o Gynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth y WDA bu i ni sefydlu'r prosiect hwn i helpu menywod ym mhob rhan o Gymru a oedd yn ystyried dechrau busnes eu hunain.

**Prosiect Cydraddoldeb Cwmniau Bach a Chanolig eu Maint:** Bu Chwarae Teg yn dal i weinyddu'r prosiect hwn gan y WDA yn llwyddiannus. Bellach, rydym wedi gweithio gydag 800 o fusnesau.

**Menter Rhieni Sengl:** Unwaith eto, fel rhan o'r cynllun uchod a phrosiect Potentia dechreuom weithio gyda'r grwp hwn o entrepreneuriaid nad oes ganddynt gynrychiolaeth deg.

**Marchnata a chyfathrebu:** Cefnogodd Nwy Prydain ein presenoldeb yng nghynadleddau gwleidyddol y pedair plaid yng Nghymru am yr ail flwyddyn yn olynol. Daeth 250 o gynrychiolwyr i'n Cynhadledd Flynyddol ni a chafwyd cefnogaeth gan ELWa a Heddlu Gogledd Cymru. Bu UNIFI yn dal i gynllunio ac argraffu'r cylchlythyr chwe misol Balans, cylchlythyr a ddosberthir i bartïon sydd â diddordeb gan gynnwys aelodau a staff.



[Cyd-weithwyr wrth eu gwaith]

**Dengys gwaith ymchwil** ein deng mlwyddiant fod menywod yng Nghymru yn dal i wynebu llawer o sialensiau a rhwystrau. Drwy weithio gyda'i phartneriaid bydd Chwarae Teg yn dal i chwarae rôl allweddol yn hybu rôl menywod yn y gweithle dros y degawd nesaf. Gan edrych ymlaen tuag at 2002 a thu hwnt, byddwn yn cyflawni ein gwaith craidd a bwriadwn sefydlu prosiectau yn y meysydd canlynol:

**Arferion cyflogi:** byddwn yn datblygu'r cynllun Cydbwyso Bywyd a Gwaith ac yn dal i hybu arferion cyflogi da.

**Hybu mentrau merched:** Bydd Chwarae Teg yn dal i gefnogi menywod neu rieni sengl sy'n awyddus i ddechrau busnesau eu hunain ym mhob cwr o Gymru. Byddwn yn cynnal rhaglen meicro-gredyd beilot.

**Addysg a hyfforddiant:** bydd herio stereoteipiau yn dal wrth wraidd ein gwaith a byddwn yn ystyried yr arwyddion a geir o'n gwaith ymchwil mewn perthynas â'r agenda dysgu gydol oes yng Nghymru.

**Dylanwadu ar bolisïau cyhoeddus:** caiff ein cysylltiadau gydag Ewrop, San Steffan a Chynulliad Cenedlaethol Cymru eu datblygu ymhellach a byddwn yn adeiladu ar ein harbenigedd mewn perthynas â datblygiad economaidd menywod yng Nghymru.

## Aelodau'r Bwrdd

**Neil Wooding (Cadeirydd)**
Awdurdod Iechyd Bro Taf

**Elan Closs Stephens (Dirprwy Gadeirydd)** S4C

**Gwenda Williams**
increative

**Hilary Davies**
Busnes yn y Gymuned

**Sheelagh Keyse**
Canolfan Byd Gwaith

**Cyng. Ann Owens**
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

**Betty Phillips**
TUC Cymru

**Jacky Tonge**
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

**Susan Geary**
HSBC

**Arolygwyr/Cynghorwyr**

**Sharon Linnard** - KPMG
**Kate Bennett** - EOC
**Iain Willox** - WDA



[Rhai o dim rheoli Chwarae Teg]

# cyfrifon

**Datganiad Gweithgareddau Ariannol** ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2002

| | 2002 |
|---|---|
| **Adnoddau sy'n dod mewn** | **£** |
| Rhoddion, aelodaeth, grantiau ayb | 255,709 |
| Gweithgareddau hybu'r amcanion | 2,270,512 |
| Incwm buddsoddi | 7,150 |
| Adnoddau eraill sy'n dod mewn | 30,582 |
| **Cyfanswm yr adnoddau sy'n dod mewn** | **2,563,953** |
| **Adnoddau a wariwyd** | |
| Costau codi arian | 40,695 |
| Gweithgareddau hybu'r amcanion | 1,944,754 |
| Costau cefnogi | 31,826 |
| Rheoli a gweinyddu | 306,889 |
| **Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd** | **2,324,164** |
| Adnoddau sy'n dod mewn net | **239,789** |
| Balansau arian a ddygwyd ymlaen | **207,795** |
| Balansau arian a gariwyd ymlaen | **447,584** |

**Sylwer**
Tynnir y datganiad ariannol cryno hwn o'r cyfrifon llawn ac nid yw'n cynnwys gwybodaeth ddigonol i roi dealltwriaeth lwyr i chi o'r canlyniadau nac o sefyllfa Chwarae Teg. I gael rhagor o wybodaeth dylech droi at y cyfrifon llawn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2002, adroddiad yr archwilwyr ar y cyfrifon hynny, ac adroddiad blynyddol yr Ymddiriedolwyr. Mae'r cyfrifon llawn, a baratowyd yn unol â gofynion Cyfrifo Elusennau a'r Ddeddf Cwmnïau, ar gael am ddim drwy ysgrifennu at: Rheolydd Cyllid ac Adnoddau yn Swyddfa Genedlaethol Chwarae Teg.

**Crynodeb o'r Fantolen** ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2002

| | | 2002 |
|---|---|---|
| **Asedau sefydlog** | **£** | **£** |
| Asedau diriaethol | | 22,634 |
| **Asedau cyfredol** | | |
| Dyledwyr | 136,103 | |
| Arian cadw tymor byr | 90 | |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 544,791 | |
| | **680,984** | |
| **Credydwyr:** yn ddyledus o fewn 1 flwyddyn | | |
| | **256,034** | |
| Asedau cyfredol net | | 424,950 |
| **Cyfanswm asedau llai'r dyledion cyfredol** | | **447,584** |
| **Credydwyr:** yn ddyledus ar ôl 1 flwyddyn | | |
| **Asedau Net** | | **447,584** |
| **Arian** | | |
| Heb eu cyfyngu | | 444,651 |
| Cyfyngedig | | 2,933 |
| **Cyfanswm yr arian** | | **447,584** |

**Swyddfa gofrestredig:**
Ty Blenheim, Llys Fitzalan,
Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0TS
Rhif Cofrestru Elusennau 1084466
Rhif Cwmni 2901456
Cofrestrwyd fel Fairplay (Workforce) Ltd

**Swyddfa Genedlaethol Chwarae Teg,**
Llys Angor, Heol Keen,
Caerdydd, CF24 5JW
Ffôn:029 2047 8900
Ffacs:029 2047 8901
www.chwaraeteg.com
Ebost: post@chwaraeteg.com